# *Whiplash* (Chazelle, 2014)
## Dosbarthiad: Y cyfryngau cymdeithasol

## Task 1

Mae *Whiplash* yn cael ei dosbarthu gan Sony Pictures Classics, sef y rhan o Sony sy'n delio â ffilmiau annibynnol. Cliciwch ar y cyswllt hwn i weld tudalen swyddogol *Whiplash* ar wefan Sony Pictures Classics. Edrychwch yn ofalus ar y dudalen we a llwythwch becyn y wasg i lawr, sydd wedi'i atodi i'r dudalen.

- Sut mae Sony yn defnyddio'r dudalen we a phecyn y wasg i'w helpu i werthu'r ffilm?
- Sut mae'r dudalen we a phecyn y wasg wedi'u dylunio i ategu ei gilydd?

## Tasg 2

Nawr dylech chi ystyried sut mae Sony Pictures Classics wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r ffilm.

Mewn grwpiau, edrychwch ar y cysylltau canlynol:

- Sut mae Sony yn ceisio defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i'w helpu i werthu'r ffilm?
- Sut mae cynulleidfaoedd yn gallu defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael mathau gwahanol o wybodaeth am *Whiplash*?
- Pa mor bwysig yw'r cyfryngau cymdeithasol i gynulleidfaoedd ffilm?

## Tasg 3 – Tasg Greadigol

**Crëwch ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ffilm newydd. Mewn grwpiau, defnyddiwch ffilm o'r gorffennol neu ewch ati i greu braslun o ffilm newydd. Dangoswch sut gallech chi ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol mewn ffyrdd gwahanol, ond fel ymgyrch gydlynol.**

**Defnyddiwch y cyswllt at Mashable i gael rhagor o syniadau.**

### Tasg ddilynol

**Ar eich pen eich hun, edrychwch ar enghreifftiau eraill o gynyrchiadau ffilm annibynnol a phrif ffrwd, a cheisiwch eu defnyddio i ateb rhai o'r cwestiynau canlynol:**

- **Cymharwch y ffactorau gwahanol sy'n cyfrannu at lwyddiant neu fethiant ffilm yn y swyddfa docynnau.**
- **Sut mae ffilmiau annibynnol weithiau'n sicrhau llwyddiant?**
- **Pa mor bwysig yw marchnata wrth ddenu cynulleidfa?**